# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-07-09 Papur 3 : 05 Mai 2009

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor. Daeth llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf i law ar ffurf gohebiaeth. Pan fo'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth wedi'u cynnwys fel atodiad PET(3) 07-09 Papur 3A i'r papur hwn.

#### (i) P-03-072 Y Mesur Gofalwyr Ifanc

#### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym ni, y cynrychiolwyr sydd wedi arwyddo isod, yn deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i Adnabod ac i roi Cymorth i Ofalwyr Ifanc: awgrymwn mai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai cynnwys pennod arbennig ar y pwnc ym Mesur arfaethedig y Cynulliad ar Fynd i'r afael â Thlodi Plant a Helpu Plant sy'n Agored i Niwed.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-072.htm

**Cynigiwyd gan:** Barry W. Cooper

**Nifer y deisebwyr:** 1 - Clybiau Rotari ledled Cymru

**Trafodwyd eisoes gan y Pwyllgor ar:** 04 Hydref 2007, 22 Tachwedd 2007, 06 Rhagfyr 2007, 06 Mawrth 2008 a 17 Mawrth 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

#### (ii) P-03-081 Rheoliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr

#### Geiriad y ddeiseb

'Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr yn gwahardd myfyrwyr hyn sydd â gradd eisoes, rhag gwneud cais am fenthyciad myfyrwyr ar gyfer costau byw. Fodd bynnag, mae myfyrwyr sy'n astudio am radd sydd, yn y pen draw, yn arwain at gymhwyster fel meddyg, deintydd, milfeddyg, pensaer, pensaer tirwedd, dylunydd tirwedd, rheolwr tirwedd, cynllunydd tref neu gynllunydd gwlad a thref, wedi'u heithrio o'r rheol hon. Does dim modd i unrhyw fyfyriwr hyn gael benthyciad myfyrwyr i dalu ffioedd. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ychwanegu at y galwedigaethau sydd wedi'u heithrio, a restrir uchod, er mwyn cynnwys unrhyw gwrs gradd i israddedigion sy'n rhagofyniad cyfreithiol, gorfodol i gymhwyso neu gofrestru mewn galwedigaeth benodol. Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau o'r fath:

BSc/Op i gofrestru fel Optometrydd

MPharmacy i gofrestru fel Fferyllydd

Rydym yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gryf i weithredu'r newidiadau hyn fel mater o flaenoriaeth, gan sicrhau bod y newidiadau'n ôl-weithredol os yw hynny'n bosibl. Y cymhelliant y tu ôl i'r ddeiseb hon yw sicrhau nad yw myfyrwyr hyn, yn enwedig y rheini o gefndiroedd llai cefnog, yn cael eu cau allan o alwedigaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rheoliadau presennol; galwedigaethau nad oes unrhyw ffordd arall o gofrestru â nhw. Yn ogystal â hyn, gofynnwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi ystyriaeth ddyledus i'r posibilrwydd o gynnig benthyciadau myfyrwyr i dalu rhan o'r ffioedd ar gyfer cymwysterau o'r fath.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-081.htm

**Cynigiwyd gan:** Mr Deri Burgess

**Nifer y deisebwyr:** 16

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 06 Rhagfyr 2007, 10 Ebrill 2008, 22 Mai 2008, 02 Hydref 2008, 27 Ionawr 2009 a 31 Mawrth 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi'i hatodi fel

rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

### (iii) P-03-137 Hypothyroidedd

### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r diffyg diagnosis o hypothyroidedd a'r gamreolaeth ohono yng Nghymru gyda golwg ar gynhyrchu argymhellion i gywiro'r sefyllfa hon.'

### Linc i'r ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-137.htm

**Cynigiwyd gan:** Dr Sarah Myhill

**Nifer y deisebwyr:** 1433

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 16 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008 a 10 Chwefror 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

**(iv) P-03-162 Gwella ffordd yr A40 ger Llanspyddid**

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffyrdd ym mhentref Llansbyddyd, ger Aberhonddu ym Mhowys, drwy weithredu mesurau i arafu'r traffig, fel gostwng y terfyn cyflymder presennol, gwella'r goleuadau ar ochr y ffordd a gwella'r arwyddion ar yr A40.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-162.htm

**Cynigiwyd gan:** Cymdeithas Trigolion Llanspyddid

**Nifer y deisebwyr:** 67

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 06 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009 a 2 Mawrth 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

### (v) P-03-185 Cynllun Adfywio Llanilltud Fawr

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi apêl cynllun adfywio Heol Boverton yn nhref hanesyddol Llanilltud Fawr, sef canolfan dysgu cyntaf Prydain.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-185.htm

**Cynigiwyd gan:** Y Cynghorydd Russell Downe

**Nifer y deisebwyr:** 498

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 10 Chwefror 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

### (vi) P-03-187 Diddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y DU yn San Steffan i wneud popeth o fewn ei allu i ddiddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-187.htm

**Cynigiwyd gan:** John Warman

**Nifer y deisebwyr:** 22

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 02 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

**(vii) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod**

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn protestio yn erbyn israddio Uned Gofal Arbennig i Fabanod Ysbyty Brenhinol Morgannwg o uned gofal dwys lefel 3 i uned dibyniaeth mawr. Er ein bod yn deall yr angen i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddigonol a bod gan y staff y cymwysterau addas i sicrhau bod cleifion yn ddiogel, rydym yn gresynu wrth y diffyg buddsoddi sydd wedi arwain at y sefyllfa hon. Rydym felly yn ceisio'r sicrwydd mai rhywbeth dros dro am yr amser byrraf bosibl yw'r israddio hwn, ac y bydd yr uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei hailsefydlu fel uned gofal dwys lefel 3 lawn.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-188.htm

**Cynigiwyd gan:** Zoe Walters

**Nifer y deisebwyr:** 2,340

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009 a 10 Chwefror 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

### (viii) P-03-197 Achub y Vulcan

### Geiriad y ddeiseb

'Mae Gwesty'r Vulcan yn Stryd Adam, a adeiladwyd yn 1853, yn un o dafarndai hynaf Caerdydd. Trefnwyd iddo gael ei ddymchwel ym mis Mehefin 2009 i wneud lle i faes parcio aml-lawr a fflatiau. Helpwch ni i wneud i'r datblygwyr gynnwys y Vulcan yn eu dyluniadau a rhoi stop ar y fandaliaeth ddianghenraid hon o ddiwylliant a hanes Caerdydd. Mae sôn am symud y dafarn i Amgueddfa Sain Ffagan ond ni ddylai'r Vulcan fod mewn amgueddfa; dylai fod lle y bu am 155 blynedd - yng nghanol Caerdydd. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu bod mwy o werth i Gaerdydd o gael Gwesty'r Vulcan yn sefyll nag o'i gael wedi'i ddymchwel, ac mae mwy o werth iddo o'i gael yn sefyll lle y mae nag o'i gael mewn amgueddfa. Rydym yn annog y datblygwyr i barchu diwylliant a hanes Caerdydd a diogelu'r adeilad hanesyddol hwn ar ei safle presennol.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-197.htm

**Cynigiwyd gan:** Rachel Thomas

**Nifer y deisebwyr:** 5,000

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 02 Mawrth 2009 a 17 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Gyngor Caerdydd ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

### (ix) P-03-202 Lwfans Cynhaliaeth Addysg

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod bod pobl ifanc dros 16 oed yn cael eu hystyried i fod yn oedolion gan eu rhieni, ac felly ni ddylid ystyried incwm eu rhieni wrth asesu cymhwyster ar gyfer Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Dylid ei seilio ar incwm unigolyn.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliad.cymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-202.htm

**Cynigiwyd gan:** Catrin Anne Davies

**Nifer y deisebwyr:** 272

**Trafodwyd eisoes gan y Pwyllgor ar:** 17 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Blant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 07-09 Papur 3A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ebrill 2009**